



# YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH : MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY : DR G O JONES

PENAETHIAID CYNORTHWYOL:

MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS.

MRS MENNA MCDONNELL, DR GUY W BURGESS

## Diweddariad COVID-19 Medi 2020

### Cwestiynau cyffredin

#### ***Gaf i siarad â rhieni eraill wrth giât yr ysgol?***

Cewch, ond mae'n bwysig iawn cadw at y rheol pellter cymdeithasol 2m wrth giât yr ysgol ac os yn tywys disgybl i'r ysgol am unrhyw reswm. Gwyddom bod pawb yn awyddus i gyfarch pobl nad ydych wedi'u gweld ers amser maith, neu i ymuno â sgwrs gyda grŵp o rieni eraill, ond mae COVID-19 dal gyda ni. Hyd yn oed os ydych yn gwisgo masg, mae ymbellhau cymdeithasol yn hanfodol.

#### ***A fydd fy mhlentyn yn gwneud Addysg Gorfforol?***

Bydd. Mae gwersi Addysg Gorfforol yn bwysig iawn i blant, ond bydd gwersi'n cael eu haddasu i leihau'r risg o ledaeniad COVID-19. Gallwch wneud pethau'n haws drwy wirio pa bryd y mae gan eich plentyn wersi AG a gwneud yn siŵr eu bod yn mynd yn dod a'r dillad mwyaf addas i'r ysgol fel eu bod yn gallu newid yn rhwydd yn yr ysgol.

#### ***A yw plant yn cael mynd i'r ysgol gydag annwyd?***

Os nad oes gan blentyn symptomau o COVID-19 a dim ond symptomau annwyd eraill fel trwyn yn rhedeg sydd ganddynt, nid oes rhaid iddynt gael prawf ac nid oes rhaid iddynt na chi hunanynysu. Gall eich plentyn ddod i'r ysgol os yn ddigon iach i wneud hynny.

#### ***A yw plant yn cael mynd i'r ysgol os oes gan riant, brawd neu chwaer neu unrhyw un arall sy'n byw gyda nhw symptomau o COVID-19?***

Os yw plentyn/rhiant/rhywun sy'n byw yn y tŷ yn datblygu symptomau o COVID-19, mae'n RHAID i bawb sy'n byw yn y tŷ hunan-ynysu yn syth a dylid archebu prawf ar gyfer yr unigolyn sydd â symptomau. Nid oes angen profi pawb sy'n byw yn y tŷ os nad ydynt yn dangos symptomau. Defnyddiwch y Llifiart i Rieni er mwyn asesu pob achos yn unigol.

Symptomau COVID-19 yw:

- tymheredd uchel
- peswch newydd, parhaus
- colli synnwyr o flas neu arogl

#### ***A yw plant yn cael mynd i'r ysgol os ydynt wedi bod mewn cysylltiad â rhywun nad ydynt yn byw gyda nhw ond sydd â symptomau COVID-19?***

Os yw plentyn wedi bod mewn "cysylltiad" gyda rhywun sy'n profi symptomau, dylent barhau fel yr arfer tan y bydd yr unigolyn hwnnw yn derbyn canlyniadau ei brawf. Os yw'n bositif, bydd y Tîm TTP yn cysylltu â phobl yr adnabyddir fel cysylltiadau. Y Tîm TTP fydd yn penderfynu pwy yw'r cysylltiadau ac nid yr ysgol.

Mae cyswllt yn golygu:

- cyswllt wyneb i wyneb gyda rhywun llai na 1 metr i ffwrdd (gan gynnwys pan fyddwch yn gwisgo gorchudd wyneb neu fasn)
- treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fedr o rywun
- teithio mewn car gyda rhywun (hyd yn oed ar daith fer)



# YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH : MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY : DR G O JONES

PENAETHIAID CYNORTHWYOL:

MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS.

MRS MENNA MCDONNELL, DR G IAN BURNETT

## ***Beth sy'n digwydd os oes gan yr ysgol achos positif o COVID-19?***

Pan fydd achos positif o COVID-19 yn cael ei adnabod sy'n mynychu lleoliad addysgol neu leoliad gofal plant (staff neu ddisgybl), bydd cyswllt yn cael ei wneud gyda'r achos (neu'r rhiant) i asesu a fynychodd y plentyn yr ysgol yn ystod ei gyfnod heintus ac i ganfod a oes angen olrhain cysylltiadau pellach yn yr ysgol. Os oes unrhyw aelod o staff neu blentyn yn gyswllt i'r achos, bydd rhaid iddynt hunan-ynysu am 14 diwrnod a bydd y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) lleol neu'r Adran Addysg yn cysylltu. Os nad yw aelod o staff neu blentyn yn yr ysgol yn cael ei adnabod fel cyswllt gan TTP, ni fydd rhaid iddynt hunan-ynysu.

## ***Archebu prawf COVID-19:***

Dim ond pobl sydd â symptomau (tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus, neu golli neu newid yn y synnwyr o flas neu arogl) neu sydd yn weithwyr allweddol ddylai gael prawf. Gellir trefnu prawf drwy'r **Porth**, neu drwy alw 119. Mae profion ar gael yn bersonol neu gyda phe cyn profi cartref sy'n cael ei ddsbarthu i'ch cartref a'i gasglu oddi yno. Mae'r prawf yn swab gwddf neu'n swab gwddf a thrwyn cyfunol. Mae rhai pobl yn cael trafferth cael gafael ar brofion. Efallai y bydd eich tîm TTP yn gallu cynorthwyo os ydych yn cael trafferthion.

## ***Hunan-ynysu:***

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 ac unrhyw un sy'n byw gyda nhw hunan-ynysu, hyd yn oed os nad yw'r symptomau'n ddrwg. Mae'n rhaid i chi beidio â mynd i'r ysgol, meithrinfa, lleoliadau gofal plant eraill, gwaith na lleoedd fel meddygfeydd, feryllfeydd neu ysbysai.

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â symptomau hunan-ynysu am 10 diwrnod o pan ddechreuodd eu symptomau. Gallent ddychwelyd i'r ysgol neu'r gwaith ar ôl 10 diwrnod os ydynt yn ddigon iach i wneud hynny.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n byw yn y tŷ ond sydd ddim yn dangos symptomau hunanynysu am 14 diwrnod o bryd y dechreuodd y person cyntaf yn y tŷ ddangos symptomau. Dim ond ar gyfer pobl sydd â symptomau fydd angen prawf. Ni ddylai pobl heb symptomau gael prawf.

Nid yw derbyn prawf negyddol pan ydych yn gyswllt i achos yn lleihau'r cyfnod ynysu, bydd dal yn ofynnol i chi ynysu am 14 diwrnod os ydych yn gyswllt sydd wedi ei gadarnhau i achos positif.

Os yw rhiant yn credu bod gan ei blentyn symptomau OND yn dewis peidio â rhoi prawf iddynt, mae'n rhaid i bawb sy'n byw gyda nhw hunan-ynysu am 14 diwrnod o ddechrau'r symptomau.

Os ydych yn derbyn canlyniad prawf positif, bydd y tîm TTP yn cysylltu gyda chi.

Os yw'r unigolyn sy'n dangos symptomau yn cael canlyniadau prawf negyddol, gall hunanynysu orffen i bawb, gall plant ddychwelyd i'r ysgol a gall rhieni ddychwelyd i'r gwaith os ydynt yn ddigon iach i wneud hynny a chyn belled â nad oes unrhyw un sy'n byw yn eu tŷ wedi datblygu symptomau.